O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 678 (Cy. 91)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *2 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *12 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arni.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 yng Nghylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.